CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 7 HYDREF 2014

Presennol
Cadeirydd Y Dirprwy Faer – Cyng B Owen

Cynghorwyr
W T Owen, I C Thomas, H Edwards, H W Roberts, A W Bohana, G Thomas, A Hopcyn, E Lovgreen, E Hughes, T Thomas, W L Davies, C Williams

1. **Ymddiheuriadau**
   W R Owen, M Thomas, K Williams

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**
28 Medi – gosod torch er cof am Lionel W Brabazon Rees
Ac yna croesawu grŵp o Eidalwyr i'r Castell

3. **Datgan Buddiant Personol**
Cyng W T Owen – cynllunio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Datblygu'r fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu lleol ar y cyd
Cais ariannol yr heddlu
Cais BID i ddefnyddio'r logo
Cofnodion pwyllgor adloniant

5. **Cofnodion**
I gadarnhau y cofnodion canlynol:-
   i. Cyngor, 16 Medi 2014
   ii. Pwyllgor adloniant 7 Hydref 2014 (ar lafar)
   Presennol – E Hughes, W L Davies, C Williams, A Hopcyn, E Lovgreen,
   Ymddiheuriadau – H Edwards, I C Thomas, W R Owen , M Thomas
   Etholwyd Cyng E Hughes yn gadeirydd a Cyng C Williams yn is gadeirydd

Sul Y Cofio – Parch Donaldson wedi gofyn inni ystyried roi y sgrin yn Gisda unwaith eto gan bod cymaint o waith wedi mynd i mewn i 'r sleids

Penderfynwyd

Llogi'r sgrin gan Gisda ac awgrymu bod nhw yn gwneud paneidiau Angen cofio roi eitem yn papur parthed sut i archebu torch a beth yw'r dyddiad cau

Digwyddiadau Nadolig

Y noson dathlu– Nos Iau 4ydd Rhagfyr

Penderfynwyd – gorymdeithio o top stryd llyn ,cael criw cimeria i arwain, cystadleuaeth addurno cap sïon corn, yna dathlu'r geni ar y Maes ond ochr y fowntin , countdown (nodwyd pryderon am oleuo'r goeden ei hun ond bod y clerc yn gweithio ar ateb gyda'r cwmni) . Symud i safle dan do trio Ebenezer gyntaf, neu Neuadd y Farchnad, neu Theatr Seilo . Gofyn wrth yr archfarchnadoedd am mins peis (gan ychwanegu Home bargains i'r rhestr). Gofyn wrth Ysgol Syr Hugh Owen i enwebu rhywun i ganu (yn y darn dan do). Sion corn ar gael . Gwario hyd at £100 ar "glow sticks" ond ceisio cael y pris gorau am fwyaf posib (angen o leiaf 200). Cynghorydd E Hughes a Cynghorydd C Williams i edrych mewn i brisiau .Noson hyfforddiant i'r Cynghorwyr i gyd Tachwedd 11 rhwng 6-9 ar gyfer stiwardio

Cystadleuaeth ffenestri- y pwyllgor adloniant i greu rhestr fer ar gyfer y siopau ar Maer a'r Dirprwy i feirniadu yr enillwyr. Aros efo Michael a Marian Lambert Jones ar gyfer y gystadleuaeth tai er mwyn sicrhau rhywun annibynnol o'r Cyngor

Penderfynwyd

Cefnogi'r syniadau

Dydd Gŵyl Dewi

Eglurodd y clerc ei bod hi wedi cyfarfod gyda'r heddlu a swyddogion Cyngor Gwynedd a pawb yn gytûn NA fyddai yn bosib dod yn groes i traffig ar hyd Stryd Bangor ond pawb yn hapus efo taith llynedd gan ychwanegu mynd o amgylch Y Maes . Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd mynd yn nol at yr Heddlu a Cyngor Gwynedd i weld os oes modd dod i fyny Tanybont er mwyn ystyried ddefnyddio floats (fel carnifal) ac yna i'r floats barcio tu allan i swyddfa'r Harbwr Feistr

Penderfynwyd

Gofyn i'r clerc edrych mewn i hyn

Gorffennodd y cyfarfod am 5.55

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir ar ôl Cywiro clwb hwylio i clwb rhwyfo
ii. Mabwysiadu argymhellion y pwyllgor fel nodwyd uchod

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0895/14/CR **Cytuno**

Newidiadau mewnol er mwyn gosod peiriant talu arian i mewn yn lle'r peiriant presennol

HSBC 24 Castle Square, Caernarfon

****

2. C14/0893/14/HY **Cytuno**

Gosod 8 arwydd heb eu goleuo oddi fewn i'r maes parcio

Tesco Stores Ltd., Lon Parc, Caernarfon

****

3. C14/0800/14/LL **Cytuno**

Newidiadau i edrychiad blaen y cyfleuster gofal nyrsio ychwanegol (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd o dan caniatad rhif C11/0828/14/LL)

Bryn Seiont Hospital, Pant Road Caernarfon

****

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Tynnwyd sylw i'r ffaith bod dwy siec wedi nodi ar gyfer cwrs i'r Cyng H Roberts pan mai dim ond un sydd wedi ei danfon (102416 wedi ei dileu)

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Cofiadur Anrhydeddus

Yn dilyn eitem gwreiddiol 1 Gorffennaf mae Ei Fawrhydi Barnwr Rhys Rowlands wedi derbyn y swydd yna pan yn adrodd yn ôl bydd angen trafod un elfen arall. Cafwyd eglurhad gan Cyng I C Thomas y byddai yn fanteisiol i godi statws y swydd trwy ofyn i'r Prif Ustus ystyried i'r penodiad fod fel Cofiadur Caernarfon. Yn ogystal cafwyd cadarnhad bod y Cyngor yn dymuno noson tebyg i'r hyn a gafwyd yn y Celtic pan benodwyd Barnwr Dafydd Hughes

Penderfynwyd

Cefnogi'r ychwanegiad ac ysgrifennu i'r Prif Ustus ac i'r clerc drefnu noson yn y Celtic

10. Cofnodion Prosiect Dyffryn Cadnant

Er gwybodaeth

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diolch i Cyng E Hughes

11. Ymateb Cyngor Gwynedd

Pâr: Arwydd Rhosbodrual

Cafwyd trafodaeth hir ac er bod rhai yn teimlo yn anhapus gyda'r ateb

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys y llythyr gan bod ryw fath o arwydd yn well na dim o gwbl

(gadawodd Cyng H Edwards am 7.00)

12. Datblygiad Personol i Gynghorwyr

Gofynnodd y clerc os oedd y cynghorwyr yn dymuno iddi greu system tebyg i Cyngor Gwynedd lle mae nhw yn medru dod mewn am sgwrs anffurfiol i drafod eu datblygiad personol . Yn amlwg wrth wneud y fath yna o beth a bod nifer yn nodi bod nhw angen yr ru'n fath o hyfforddiant yna fyddai'r clerc yn medru mynd ati i drefnu yn nol y gofyn

Penderfynwyd

Cefnogi'r syniad ac unrhyw un efo diddordeb i gysylltu a'r clerc (y clerc i greu templed ai dosbarthu – Cyng W T Owen am rannu copi o un Cyngor Gwynedd efo'r clerc

13.**Rhybudd o Gynnig Cyng. Ann Hopcyn**

Pâr: Biniau sbwriel
Cafwyd trafodaeth am diffyg biniau ar y lonydd o'r Ysgol i Canol y dre mewn sawl cyfeiriad a credu bod angen o leiaf 4 bin newydd . Nodwyd yn ogystal bod diffyg biniau yn gyffredinol ar lonydd o fewn y dref lle mae lot o lif plant yn mynychu ysgolion .

Penderfynwyd
Cefnogi cynnwys y rhybudd o gynnig gan sicrhau bod angen i Gyngor Gwynedd wagio nhw hefyd. Ysgrifennu ail lythyr oedd yn nodi y problemau cyffredinol mewn llefydd gyda llif plant a gofyn i swyddog priodol ddod lawr i drafod y mater

14. **Gwyl Fwyd**

i. Adroddiad Cyng. A. Hopcyn o gyfarfod Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru
ii. Copi o gyflwyniad Chris Jones
Cafwyd eglurhad bod y cyfarfod wedi bod yn un llwyddiannus tu hwnt a bod na griw wedi rhoi eu henwau ymlaen i helpu

Penderfynwyd
Gofyn i'r grŵp a rhoddodd eu henwau ymlaen arwain ar y mater ac annog iddynt anfon cais ariannol i mewn

15. **Llythyrau diolch**

i. SSAFA
ii. Mari Davies

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

16. Llythyr Cyngor Gwynedd

Llunio Strategaeth Lletya Pobl Hyn

Penderfynwyd
Cynghorwyr i ateb i'r clerc erbyn 12 amser cinio dydd Mawrth er mwyn i'r atebion gael eu crynhoi ar gyfer rhaglen nesaf y Cyngor

17. Grŵp Cynefin Grant Datblygu

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a'r cynghorwyr i dynnu sylw y grant i grwpiau lleol perthnasol

18. Polisïau'r Cyngor wedi cyfieithu

Er gwybodaeth

i. Bwlio ac aflonyddu
ii. Cynllun Pensiwn
iii. Gweithdrefn Cwyno
iv. Gweithredoedd annerbyniol gan unigolyn

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19.**Rhybudd o Gynnig Cyng. I. C. Thomas**

Pâr: .gov

Penderfynwyd

Cofrestru ar gyfer ".Cymru" yn syth ond peidio newid yn y cyfamser

20.Cynhadledd blynyddol Peg

Penderfynwyd

Anfon Cyng. W T Owen

21. Adroddiad o Bwyllgor Ardal Unllais

Penderfynwyd

Derbyn a diolch am yr adroddiad

22. Adroddiad lafar o weithdy 'Wynebu'r her ariannol gyda'n gilydd'

Fydd ymgynghoriad dros y 9 mis nesaf ac annog unrhyw i fynychu y cyfarfodydd ar 2ofed o Hydref

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad ac annog pobl i fynychu

23.Cwestiynau

Dim

(Cafodd y rheolau sefydlog eu rhoi i un ochr er mwyn trafod yr eitemau brys)

24. Seminar Datblygu'r fersiwn Adnau o'r cynllun datblygu lleol ar y cyd

Ni chafwyd enw i gynrychioli'r Cyngor

25. Cais ariannol yr Heddlu

Penderfynwyd

Talu'r £175.40 a ofynnir amdano

26. Cais BID i ddefnyddio'r logo

Cafwyd cais gan BID Caernarfon i ddefnyddio logo'r cyngor ar y pamffled

Penderfynwyd

Caniatáu defnydd o'r logo i'r pwrpas yma

Ddaethpwyd ar rheolau sefydlog yn nol
Gorffennodd y cyfarfod am 8.00

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....